# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 11-09 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth 7 Gorffennaf 2009**
**Amser: 09:01 - 10:43**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Sandy Mewies AC, Delyn (Cadeirydd dros dro)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Mike German AC, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Alun Davidson, Clerc

Sarah Sargent, Dirprwy Glerc Dros Dro

Joanest Jackson, Cynghorwr Cyfreithiol

### Cyflwynwyr

Dr Ted Coles, prif ddeisebwr, Na i Ffordd Maes Awyr Dyffryn Elái

Peter Fox, Na i Ffordd Maes Awyr Dyffryn Elái

Chris Franks AC, Canol De Cymru, Aelod Cynulliad Lleol

Sian-Nia Davies, Achubwch Bentref Gwenfo

Paul Fulgoni, Achubwch Bentref Gwenfo

Dr Fred Rose, Achubwch Bentref Gwenfo

#### 1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Sesiwn dystiolaeth: P-03-190 Na i Ffordd Maes Awyr Dyffryn Elái

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Dr Ted Coles, y prif ddeisebwr, a Peter Fox, o'r grŵp Na i Ffordd Maes Awyr Dyffryn Elái (NEVAR).

Siaradodd Chris Franks AC o blaid y ddeiseb yn rhinwedd ei swydd fel un o Aelodau Cynulliad y rhanbarth.

#### 3. Sesiwn dystiolaeth: P-03-218 Achubwch Bentref Gwenfo

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Sian-Nia Davies, Paul Fulgoni, a Dr Fred Rose, o'r grŵp Achubwch Bentref Gwenfo.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn iddo egluro'r diffyg cysondeb yn y wybodaeth a ryddhawyd ynghylch diben y gwaith o wella mynediad i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, gan gyfeirio'n benodol at ei lythyr dyddiedig 13 Ionawr a oedd yn sôn am yr Academi Amddiffyn arfaethedig yn Sain Tathan.

Argymhell y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog egluro'r rhesymau dros y penderfyniadau wrth y cymunedau hynny y bydd y gwaith o wella mynediad i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn effeithio arnynt.

Gofyn i'r Dirprwy Brif Weinidog egluro'r defnydd a wnaed o fodelau traffig ac unrhyw benderfyniad a wnaed wedyn mewn perthynas â gwella mynediad i Faes Awyr Rhyngwladol, gan dynnu ei sylw at ei lythyr dyddiedig 20 Mai 09.

Argymhell y dylai'r Dirprwy Brif Weinidog sicrhau bod modelau traffig ar gyfer yr holl ddewisiadau a restrir yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac nid dim ond ar gyfer y cynllun a ffefrir.

Ysgrifennu at Asiantaeth yr Amgylchedd yn gofyn am wybodaeth am y modelau a ddefnyddiwyd i nodi peryglon llifogydd yn Nyffryn Elái, gan nodi pryderon y deisebwyr fod y modelau hyn wedi arwain at wybodaeth anghywir. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ofyn am wybodaeth am lefelau uchaf llygredd aer.

### 4. Deisebau newydd

### (i) P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ei barn ar ddarparu Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn ledled Cymru drwy gysylltu pob ysbyty sy'n derbyn cleifion sydd wedi torri esgyrn oherwydd breuder â'r Gwasanaethau Cyswllt hyn.

### (ii) P-03-223 Adran 6, Deddf yr Iaith Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ofyn i wasanaeth cyfreithiol y Cynulliad benderfynu a yw cais y deisebwr yn ymarferol, ac a fyddai unrhyw oblygiadau ynghlwm wrth Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg), ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn ystod tymor yr hydref.

### (iii) P-03-225 Coleg Gorseinon

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn a oes unrhyw arian ychwanegol ar gael i Goleg Gorseinon er mwyn parhau â chyrsiau a dosbarthiadau

Ysgrifennu at Bennaeth Coleg Gorseinon i holi a yw wedi llwyddo i gael hyd i arian o ffynonellau eraill er mwyn parhau â chyrsiau yn y Coleg

Ysgrifennu at y Fforwm i ofyn am eu barn ar y mater

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn a yw'n ymwybodol o unrhyw arian Ewropeaidd a allai fod ar gael.

### (iv) P-03-226 Sands - Elusen Marw-enedigaeth a Marwolaeth Cyn Geni

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn:

A oedd ganddi unrhyw sylwadau ar yr adroddiad 'Saving Babies' Lives' a gyhoeddwyd gan Sands

A oedd yn bwriadu, neu wrthi'n datblygu, strategaeth i leihau marwolaethau cyn geni

A oedd ganddi unrhyw gynlluniau i ariannu gwaith ymchwil pellach i farw-enedigaethau a marwolaethau cyn geni

A oedd ganddi unrhyw gynlluniau i weithio gyda Sands i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o unrhyw faterion a godir yn y ddeiseb.

### (v) P-03-231 Agosatrwydd tyrbinau gwynt at dai preswyl

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am ei farn ynghylch newid y pellter gofynnol rhwng tyrbinau gwynt ac anheddau preswyl o 500m i 2km, a'r rhesymau dros y gwahaniaeth yn y pellter gofynnol yn yr Alban a Chymru.

### (vi) P-03-232 Coetiroedd Ffynnone a Chilgwyn

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ofyn am ei sylwadau ar gomisiynu ymchwiliad annibynnol i benderfyniad Calon yn Tyfu / Growing Hearts Ltd. i brynu Coetiroedd Ffynnone a Chilgwyn

Ysgrifennu at Gomisiwn Coedwigaeth Cymru i ofyn am ei sylwadau ar y mater hwn.

Ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol i ofyn a yw ei swyddfa wedi ymchwilio i'r modd y mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn gweinyddu cynllun Cydcoed

Ysgrifennu at Calon yn Tyfu i ofyn am eu barn ar y mater hwn.

## 5. Trafod y dystiolaeth

### Trafododd y Pwyllgor dystiolaeth deisebau Na i Ffordd Maes Awyr Cwm Elái ac Achubwch Bentref Gwenfo.

## 6. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### (i) P-03-081 Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Bwrdd y Rhaglen Moderneiddio Gyrfaoedd Fferylliaeth

Gofyn i'r deisebwr am y wybodaeth ddiweddaraf am ei ymgyrch a'i farn ar yr ohebiaeth a gafodd y Pwyllgor yn ddiweddar mewn perthynas â'r ddeiseb.

### (ii) P-03-099 Llwybr amlddefnydd yn Nhalybont-ar-Wysg

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Annog y Dirprwy Brif Weinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a wnaed hyd yma.

### (iii) P-03-137 Hypothyroidedd yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ymateb gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol  (NICE).

### (iv) P-03-144 Cŵn tywys y deillion

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn iddo pryd y caiff yr ymchwil gan yr Adran Drafnidiaeth ei gyhoeddi.

Trafod y ddeiseb eto ar ôl cyhoeddi astudiaeth ymchwil yr Adran Drafnidiaeth

## (v) P-03-153 Celf corff

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**(vi) P-03-170 Mencap Cymru**

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Mencap Cymru i ofyn a ydynt yn fodlon ar y camau a amlinellwyd yn llythyr y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ac a ydynt yn credu bod angen cymryd camau pellach - er enghraifft, a ddylai rhywfaint o'r polisi ganolbwyntio ar gynorthwyo darpar gyflogwyr i gyflogi pobl ag anabledd dysgu?

**(vii) P-03-181 Anemia Dinistriol**

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu hymateb i lythyr y Gweinidog..

**(viii) P-03-183 Gwella gwasanaethau rheilffordd yn Aberystwyth**

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor:

Ysgrifennu at TraCC i roi crynodeb o'r materion a godwyd gan y disgyblion, ac i ofyn i un o'r swyddogion ddod i gyfarfod â'r disgyblion i drafod eu pryderon a'u profiadau ac er mwyn i Trac ystyried y rhain wrth gynllunio'u gwaith yn y dyfodol

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn iddo am hynt yr achos busnes y cyfeiriodd arro yn ei lythyr dyddiedig 15 Rhagfyr 2008.

**(ix) P-03-187 Diddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren**

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i roi gwybod iddo y caiff cyfarfod nesaf y Pwyllgor ei gynnal ar 22 Medi 2009, ac y byddai'n hoffi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa erbyn y cyfarfod hwnnw.

**(x) P-03-197 Achub y Vulcan**

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am ymateb CLlLC.

Cadw'r ddeiseb ar agor.

**(xi) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy**

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Ganolfan Byd Gwaith i ofyn iddynt drafod y pwyntiau a godwyd gan y deisebwyr.

Ysgrifennu ar Lywodraeth Cymru yn gofyn am ei barn ar y mater, a hefyd yn gofyn a yw wedi cynnal trafodaethau ar y pwnc â'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU.

**(xii) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn iddo:

Roi copi o'r canllawiau diweddaraf ar derfynau cyflymder i'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddant ar gael

Amlinellu o dan ba amgylchiadau y byddai'n cynnal adolygiad o derfynau cyflymder ar ddarn o gefnffordd.

**7. Unrhyw fater arall**

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Archwilio'r materion sydd wedi codi o ran darpariaeth TGCh ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n galluogi'r cyhoedd i ddechrau neu i gefnogi deisebau.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Gorffennaf 2009**